CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyflwyno'r 'Geiriadur meddyginiaethau a dyfeisiau' (WHC/2024/042)

Rhaid i'r byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd arbennig yng Nghymru defnyddio'r Geiriadur Meddyginiaethau a Dyfeisiau (DM+D).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwynor-geiriadur-meddyginiaethau-dyfeisiau-whc2024042-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

## Manylion

## Cyflwyno'r Geiriadur Meddyginiaethau a Dyfeisiau (DM+D) yn safon sylfaenol ym mhob un o gyrff GIG yng Nghymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwynor-geiriadur-meddyginiaethau-dyfeisiau-whc2024042-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion

## Statws:

Cydymffurfio.

## Categori:

Safonau data.

## Teitl:

Cyflwyno'r Geiriadur Meddyginiaethau a Dyfeisiau (dm+d) yn safon sylfaenol ym mhob un o gyrff GIG yng Nghymru.

## Dyddiad adolygu:

4 Tachwedd 2027.

## I'w weithredu gan:

- Byrddau iechyd lleol y GIG.
- Ymddiriedolaethau'r GIG.
- Awdurdodau iechyd arbennig y GIG.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwynor-geiriadur-meddyginiaethau-dyfeisiau-whc2024042-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Er gwybodaeth:

Cyflenwyr iechyd a gofal digidol.

## Angen gweithredu erbyn:

Ar unwaith.

## Anfonir gan:

Mike Emery, Cyfarwyddwr Technoleg a Digidol,
Iechyd Digidol a Thrawsnewid / y Prif Swyddog Digidol,
y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Flynyddoedd Cynnar,
Llywodraeth Cymru.

## Enw cyswllt yn Llywodraeth Cymru:

Amir Ramzan,
Uwch Reolwr - Safonau Iechyd Digidol,
y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol, a'r Flynyddoedd Cynnar,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd.
CF10 3NQ.
Email: **amir.ramzan@gov.wales**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwynor-geiriadur-meddyginiaethau-dyfeisiau-whc2024042-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Dogfennau amgaeedig:

Canllawiau.

# Cyflwyno'r Geiriadur Meddyginiaethau a Dyfeisiau (DM+D) yn safon sylfaenol ym mhob un o gyrff GIG yng Nghymru

## Y cefndir

Annwyl gydweithwyr,

Mae'r Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2023, yn cydnabod pwysigrwydd canolog rheolau sy'n seiliedig ar safonau sy'n llywodraethu mynediad at gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol a rennir at wahanol ddibenion gan gynnwys ym meysydd gofal clinigol, cynllunio gwasanaethau iechyd a'u rheoli, ymchwil ac arloesi.

I gyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod pedair egwyddor arweiniol ar gyfer data iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu mabwysiadu. Hynny yw, dylai data fod yn ganfyddadwy (Findable), yn hygyrch (Accessible), yn rhyngweithredol (Interoperable), ac yn ddata y gellid ei ailddefnyddio (Reusable). I gefnogi'r egwyddorion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi mandadu nifer o safonau agored i sicrhau bod data yn cael ei ddisgrifio mewn perthynas â'i gystrawen, sgema, geiriadur data neu gyfeiriad, ac yn mabwysiadu, lle bo hynny'n bosibl, safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol, wedi'u dogfennu'n dda, sydd ar gael yn agored, er mwyn manteisio i'r eithaf ar ryngweithredu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwynor-geiriadur-meddyginiaethau-dyfeisiau-whc2024042-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r dull hwn yn golygu nad oes angen unrhyw ymdrechion arbennig ychwanegol yn y camau mapio a thrawsnewid wrth gael gafael ar y data a'i ddefnyddio, gan gynnal strwythur a chyd-destun i wella ei ansawdd a'i gywirdeb.

Mae'r DM+D yn ddosbarthiad sy'n cynnwys dyfeisiau adnabod unigryw a disgrifiadau testunol cysylltiedig ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, gan gynnwys gwybodaeth am y berthynas rhwng meddyginiaethau tebyg, eu henwau darllenadwy dynol, a rheolau ychwanegol i gynnal y gwaith o'u defnyddio. Mae wedi'i ddatblygu gan GIG Lloegr i'w ddefnyddio ledled y GIG (ym maes gofal sylfaenol a gofal eilaidd) fel ffordd o nodi yn unigryw y meddyginiaethau neu'r dyfeisiau penodol a ddefnyddir wrth wneud diagnosis neu drin cleifion.

Gall y geiriadur meddyginiaethau a dyfeisiau wneud y canlynol:

a. Uno cysyniadau megis llwybrau ac unedau mesur, rhagnodi brandiau, hwyluso gwaith nodi cywir a helpu i leihau gwallau wrth ragnodi, dosbarthu a gweinyddu.
b. Mae'n cynnwys dyfeisiau adnabod unigryw a disgrifiadau testunol cysylltiedig ar gyfer meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, gan gynnwys gwybodaeth am y berthynas rhwng meddyginiaethau, eu henwau darllenadwy dynol, a rheolau ychwanegol i gynnal y gwaith o'u defnyddio.
c. Galluogi rhyngweithredu o ran gwybodaeth cleifion ynghylch meddyginiaethau gan ddefnyddio iaith gyffredin, gan felly wella cydweithio a sicrhau cysondeb a phontio gofal yn ddi-dor.

Defnyddio SCCI0052: Ar 7 Ebrill 2017, cafodd DM+D ei fabwysiadu gan GIG Lloegr yn safon wybodaeth genedlaethol, ac ers y dyddiad hwnnw, mae'n ofyniad cytundebol ar gyfer darparwyr systemau GIG Lloegr. Y diben pennaf oedd cefnogi rhyngweithredu. Mae'n rhaid i bob darparwr gofal iechyd y GIG yn Lloegr sy'n cyfnewid neu'n rhannu gwybodaeth am feddyginiaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofal cleifion ddefnyddio dyfeisiau adnabod a disgrifiadau dm+d wrth drosglwyddo gwybodaeth. Mae cynnwys arall y DM+D,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwynor-geiriadur-meddyginiaethau-dyfeisiau-whc2024042-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

megis dyfeisiau meddygol, wedi'u heithrio o ran cydymffurfio â'r safon. Fodd bynnag, gall defnyddwyr ddefnyddio holl gynnwys y dm+d os yw o gymorth i'w hanghenion.

Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Deyrnas Unedig sydd yn berchen ar y DM+D, drwy Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, ac mae'n gyfrifol am gynnal a dosbarthu'r dosbarthiad o dan Drwydded Llywodraeth Agored drwy GIG Lloegr, sef NHS Digital yn flaenorol. Mae GIG Lloegr yn rhyddhau'r geiriadur drwy'r gwasanaeth Dosbarthu Diweddariadau Cyfeiriadau Technoleg (TRUD) neu'r Gweinyddwr Terminoleg.

> Mae Llywodraeth Cymru felly yn mandadu'n ffurfiol y defnydd o'r 'Geiriadur meddyginiaethau a dyfeisiau' yn safon rhyngweithredu sylfaenol ym mhob corff y GIG yng Nghymru.

Mae mabwysiadu'r safon sylfaenol hon yn unioni GIG Cymru yn strategol â GIG Lloegr a bydd yn gwella ac yn sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd rheoli meddyginiaethau yng Nghymru yn sgil ei photensial i helpu i wella gofal cleifion, canlyniadau cleifion a rhyngweithredu.

Bydd hyn hefyd yn hwyluso unioni â thueddiadau rhyngwladol, gan fod geiriaduron eraill wedi'u datblygu i'w defnyddio gan gyrff gofal iechyd cenedlaethol, gan gynnwys RxNorm yn yr Unol Daleithiau, AMT (Terminoleg Meddyginiaethau Awstralia) yn Awstralia, a G-Standaard yn yr Iseldiroedd.

## Gofynion o ran gweithredu

Pan fo system ddigidol yn cofnodi meddyginiaethau ac yn trosglwyddo'r wybodaeth honno i system arall, rhaid i fyrddau iechyd lleol y GIG,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwynor-geiriadur-meddyginiaethau-dyfeisiau-whc2024042-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ymddiriedolaethau'r GIG, ac awdurdodau iechyd arbennig y GIG sicrhau bod y DM+D yn cael ei ddefnyddio i nodi'r meddyginiaethau hynny ar y lefel strwythurol briodol.

Cydnabyddir nad yw pob defnydd posibl o ddata meddyginiaethau yn gofyn am weithredu cynnwys llawn y DM+D, a dim ond yr agweddau hynny sy'n berthnasol i'r defnydd a fwriedir o system sy'n ofynnol i'w rhoi ar waith. Rhaid i fyrddau iechyd lleol y GIG, ymddiriedolaethau'r GIG, ac awdurdodau iechyd arbennig y GIG sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu nodi'n briodol wrth greu, caffael neu ddiweddaru system ddigidol sy'n cofnodi meddyginiaethau a throsglwyddo'r wybodaeth honno i system arall.

Gan fod y DM+D yn cael ei ddiweddaru'n wythnosol, cyfrifoldeb pob bwrdd iechyd lleol y GIG, ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd arbennig y GIG yw sicrhau bod eu systemau digidol yn gallu derbyn a phrosesu'n briodol unrhyw godau DM+D dilys sy'n berthnasol i'r system.

Yn gywir,

Mike Emery,

Cyfarwyddwr Technoleg a Digidol,
Iechyd Digidol a Thrawsnewid / y Prif Swyddog Digidol,
Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol, a'r Flynyddoedd Cynnar,
Llywodraeth Cymru.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyflwynor-geiriadur-meddyginiaethau-dyfeisiau-whc2024042-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.